

Cais a Telerau ac amodau'r "seddau gwag" ar Gludiant Ysgolion Cyngor Sir Caerfyrddin (2019)

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi penderfynu cynnig seddau gwag ar ei fysiau ysgol yn yr amgylchiadau canlynol:

- Cynigir y seddau gwag o fis Hydref bob blwyddyn, am weddill y flwyddyn academiaidd dan sylw.
- Ni chynigir seddau gwag ar neu lle mae gwasanaeth presennol yn rhedeg i ac o'r ysgol lle mae'r plant yn gallu talu i deithio arno, neu lle mae cludiant cyhoeddus addas eraill ar gael.
- Dim ond i blant o oed ysgol statudol y cynigir seddau gwag.
- Rhaid i ymgeiswyr fod yn byw yn Sir Gaerfyrddin (hy. fod Treth y Cyngor ar gyfer y cyfeiriad cartref cofrestredig yn cael ei thalu i Gyngor Sir Caerfyrddin). Rhaid bod y cyfeiriad hwn wedi'i gofrestru yn yr Ysgol fel cyfeiriad cartref y disgybl.
- Rhaid i ymgeiswyr fod yn mynychu'r ysgol agosaf neu ysgol y dalgylch a ddynodwyd gan yr AALI.
- Rhaid i ymgeiswyr fod yn byw o fewn y "pellter cerdded statudol" o'r ysgol, ond o leiaf filltir i ffwrdd.
- DIM OND ar gyfer y flwyddyn academiaidd gyfredol y caiff sedd wag ei chynnig ac nid yw'n golygu y caiff sedd ei chynnig y flwyddyn ddilynol.
- Mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl i dynnu'r consesiwn hwn yn ôl am unrhyw reswm drwy roi 7 diwrnod o rybudd os digwydd i'r sedd wag beidio â bod ar gael (ee lle mae angen y sedd ar gyfer disgybl sy'n gymwys i gael cludiant am ddim, neu os bydd angen newid y trefniadau cludiant i'r ysgol am ba reswm bynnag y bo hynny.)
- Ni ellir cynnig seddau gwag os byddai gwneud hynny'n golygu cost ychwanegol i'r Awdurdod.
- Dim ond ar gerbydau contract penodol sy'n gweithredu ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin y bydd y seddau gwag ar gael, lle mae'r contract rhwng yr Awdurdod a'r Contractwr yn gofyn am gerbyd ar gyfer 9 teithiwr neu ragor, hy. cerbydau gwasanaeth cyhoeddus. Nid yw tacsis a cherbydau hurio preifat (hy. sydd â llai na 9 sedd) yn rhan o'r cynllun. Dim ond ar gerbydau prif ffrwd y bydd seddau gwag ar gael, ac nid mewn cerbydau a ddarperir i ddigysbillion mewn amgylchiadau arbennig (ee i Ysgolion neu Unedau Arbennig).
- Dim ond gan rieni neu warcheidwaid y derbynnir ceisiadau am seddau gwag. Ni fydd yr Awdurdod yn dod i gytundeb gydag Ysgol neu sefydliad arall ar gyfer defnyddio seddau gwag.
- Caiff nifer y seddau gwag ar bob cerbyd eu penderfynu gan y Cyngor Sir ac ni fyddant yn agored i drafodaeth. Ni ellir penderfynu cynnig seddau gwag ond lle mae nifer y Tocynnau Teithio a roddwyd i blant cymwys yn is na'r lle sydd yn y cerbyd yn ôl y contract.

Noder: Ni ellir cynnig pob lle sbâr ar gerbyd fel "seddau gwag" oherwydd weithiau bydd angen seddau at ddibenion y staff (fel hyfforddi gyrwyr, cynnal neu adolygu asesiad risg ar y ffyrdd, neu ar gyfer cynorthwyyr teithio neu staff monitro). Rhaid i seddau sbâr fod ar gerbyd sy'n gwasanaethu llwybr a drefnwyd eisoes ac ni ddylai'r cerbyd orfod teithio'n ychwanegol.

Weithiau gallai edrych yn debyg fod nifer o seddau gwag ar fws ysgol ond nid felly y mae hi mewn gwirionedd, ac ni ellir o reidrwydd gynnig y seddau gwag tybiedig hyn i deithwyr eraill. Er enghraifft, rhaid sicrhau sedd i bob plentyn sydd wedi cofrestru i deithio ac sydd wedi cael Tocyn Teithio, oherwydd ni chaniateir i 3 eistedd mewn sedd i 2 nac i sefyll ar gerbydau sydd dan gontract i wasanaethu ysgolion. Mae'n bosibl na fydd pob disgybl yn defnyddio'r cerbyd bob dydd, ond rhaid i'r sedd fod ar gael at eu defnydd serch hynny.

Nodwch hefyd fod contractwyr weithiau, am resymau gweithredol, yn defnyddio cerbydau sydd â mwy o seddau nag sy'n ofynnol o dan y contract. Er hynny ni ellir cynnig y seddau sbâr hyn fel "seddau gwag" oherwydd ni all contractwyr warantu y bydd y lle ychwanegol hwn ar gael bob amser.

Parhad ar y dudalen nesaf ...

Nodwch fod y Cyngor Sir wedi penderfynu cyflwyno tâl gweinyddol o £50 yr un am seddau dros ben. Ar ôl cael sedd dros ben gofynnir i'r ymgeiswyr llwyddiannus gysylltu â'r Cyngor Sir i dalu â charden cyn pen 10 diwrnod a fydd yn caniatáu i'r tocyn teithio gael ei ryddhau o fewn 10 diwrnod arall. Ni fydd ad-daliad yn cael ei roi ar gyfer tocynnau teithio sy'n cael eu hildio yn ystod y flwyddyn academaidd oni bai bod hynny ar gais y Cyngor Sir.

Yn achos seddau gwag, rhoddir y flaenoriaeth i ddisgyblion ar y sail ganlynol:

- Rhoddir blaenoriaeth ar gyfer seddau dros ben i blant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd. **RHAID darparu prawf gyda'r cais hwn fod y plentyn yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn y flwyddyn academaidd gyfredol - ni fydd prawf a gyflwynir yn ôl-weithredol yn cael ei ystyried.** Caiff seddau eu cynnig yn ôl oed y disgyblion, gyda'r plant ieuengaf yn cael y flaenoriaeth.
- Caiff unrhyw seddau gwag sy'n weddill ar ôl eu cynnig i ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim eu cynnig i'r ymgeiswyr eraill, unwaith eto yn ôl oed y disgyblion gyda'r plant ieuengaf yn cael y flaenoriaeth.

Rhaid gwneud ceisiadau am seddau gwag i gyrraedd y Cyngor Sir cyn hanner dydd ar y 27 Medi 2019.

Penderfynir ar y ceisiadau yn unol â'r meini prawf uchod ar sail y lle sbâr sydd ar gael ar **4 Hydref 2019**. Lle bu'r cais yn llwyddiannus, bydd Tocynnau Teithio'n cael eu rhoi cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y tâl. Ni fydd teithio yn cael ei ganiatáu hyd nes bydd y Tocyn Teithio yn cael ei dderbyn.

Rhoddir manylion y llwybr i'w ddefnyddio gyda'r Tocyn Teithio. Os collir y Tocyn Teithio neu os caiff ei ddifrodi rhaid cysylltu â'r Awdurdod ar **01267 234 567** ar unwaith er mwyn gwneud trefniadau dros dro ar gyfer teithio (lle bo modd) ac i archebu tocyn newydd. Codir tâl am Docynnau Teithio newydd.

Darperir cludiant am ddim ar y ddealltwriaeth y bydd y disgyblion yn ymddwyn mewn modd sy'n dangos parch at gyd-ddisgyblion, eiddo a diogelwch pawb. Rhaid i bob un sy'n ymwneud â darparu a defnyddio cludiant ysgol gadw at y 'Côd Ymddygiad ar gyfer Teithio o'r Cartref i'r Ysgol/Coleg'. Gellir cael copiâu o'r Côd yn www.sirgar.llyw.cymru/cludiantysgol neu drwy wneud cais i'r Awdurdod.

Rhaid dangos y Tocyn Teithio i yrrwr y bws ar ddechrau pob siwrnai. Mae'n bosibl y gwrthodir cludo'r disgybl oni ddangosir y tocyn. Nid oes modd trosglwyddo'r Tocyn Teithio, oherwydd nid yw'n ddilys ond ar gyfer y person a enwir ar y tocyn a'r siwrnai a ddangosir arno. Mae camddefnyddio Tocyn Teithio neu ei ddefnyddio'n dwyllodrus yn cael ei drin yn ddifrifol, a gallai olygu fod y dysgwr yn cael ei ddisgyblu o dan weithdrefn ddisgyblu yr ysgol/coleg yn ogystal â cholli ei hawl i deithio.

Os bydd unrhyw fanylion yn newid ers y cais gwreiddiol, rhaid i chi gysylltu ag Uned Cludiant Teithwyr yr Awdurdod ar unwaith, er mwyn iddynt newid y manylion ac ailasesu a yw'r dysgwr bellach yn gymwys i gael cludiant. Os oes angen Tocyn Teithio newydd oherwydd y newid, rhaid dychwelyd y tocyn presennol.

Os nad ydych chi angen y Tocyn Teithio mwyach, anfonwch ef yn ôl i Uned Cludiant Teithwyr yr Awdurdod oherwydd gall fod eraill yn awyddus i ddefnyddio'r sedd wag.

Gallai seddau gwag gael eu tynnu'n ôl ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd, heb nodi rheswm, drwy roi 7 diwrnod o rybudd. Caiff disgyblion yn y cyfryw amgylchiadau eu blaenoriaethu yn ôl oed, yr hynaf yn gyntaf, ond bydd plant sy'n cael prydau ysgol am ddim yn cadw'r flaenoriaeth. Os caiff y sedd wag ei thynnu'n ôl rhaid dychwelyd y Tocyn Teithio i'r Cyngor Sir ar unwaith. Bydd methu â gwneud hynny yn golygu na fydd deiliad y tocyn yn gymwys i fanteisio ar y consesiwn hwn yn y dyfodol. Ar ôl i'r sedd wag gael ei thynnu'n ôl, y rhieni o hynny ymlaen fydd yn gyfrifol am drefnu i gludo'r plentyn i'r ysgol ac adref.

Mae penderfyniad yr Awdurdod ar seddau gwag yn derfynol ac nid oes hawl i apelio.